To Jane Boyntyn

CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 9. RHIF 12.] RHAGFYR, 1909. [PRIS 2c.

CYNWYSIAD.

AR EDYN FFYDD.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NÁD YW.
Parch. Joseph Wood.

O FON I FYNWY. Sarnicol.

RHAGFARN YN ERBYN UNDODIAETH.

CYFARFOD CHWARTEROL CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

PETHAU NEWYDD A HEN.

AT GYNULLEIDFA HEN DY CWRDD, ABERDAR.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

T.M., Abertillery; Dr. D.J.D., Glasgow; R.G.D., Blaenrhondda; Mrs. J., Fronfelen; D.S., Bwlchyffin.

Ar werth yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

LLIN AR LIN:

Penodau'n Hanes a Chrefydd Israel,

— GAN Y —

Parch. J. JENKINS, B.A. (Gwili).

Mewn Llian, 2s. Trwy y Post, 2s. 2c.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .

Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1909. [CYF. IX. RHIF 12.

AR EDYN FFYDD.

TREM DROS Y FFIN.

Fel gweledydd ar y mynydd—
  Mynydd Nebo bywyd blin,
I dawelwch y dirgelwch,
  Tremia f'enaid dros y ffin.

Gwelaf yno yn blaguro
  Gyfandiroedd llawn o hedd,
Eangderau diderfynau
  Heb gysgodion tywyll fedd.

Gobaith yspryd yn ei adfyd
  Yw dyfodol di ystaen,
Pan fo'i hwybren yn ddiheulwen,
  Gwel y wawr yn tori 'mlaen.

Dros y terfyn, ar eu hedyn,
  Gwelaf hen arfaethau'r Ior ;
A'u dylanwad ar fy mhrofiad
  Fel awelon dros y mor.

Clywaf engyl yn fy ymyl
  Yn fy nghymell drwy y rhyd ;
Ac yn wyneb tragwyddoldeb
  Af yn mlaen yn wyn fy myd !

DYFED.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

Pennod II.

Y Cyfieithad Awdurdodedig.

GWELSOM yn y benod flaenorol nad yw y Beibl yn sefyll ar ei ben ei hun, ond y perthyn i ddosbarth arbenig o lyfrau a elwir yn Feiblau mawrion y byd. Mae holl grefyddau mwyaf nodweddiadol dynolryw wedi meddu ar eu llyfrau cysegredig, ac mae y llyfrau hyny wedi eu parchu mor fawr ag y perchir y Beibl genym ni. Wrth ddweyd hyn, ni olygwn am funud i ddweyd fod y naill Feibl gystal a'r llall, neu eu bod i gyd yn sefyll ar yr un safon. Mynydd yw y Wyddfa, a mynydd yw y Matterhorn, ond mae y naill yn anfesurol uwch na'r llall. A gwahaniaetha Beiblau'r byd yn eu gwerth i ddynion; gwahaniaethant yn y godidogrwydd a'r ysprydoliaeth yr ymgodant iddynt. Cymer ein Beibl ni y safle flaenaf o ddigon, ond nid ar gyfrif y rhesymau a ddygir dros hyny fynychaf. Ei ddwyfoldeb uwch sydd, ar y cyfan, wedi apelio at frwdfrydedd ei edmygwyr. Ond ei ddynoliaeth uwch sydd a'r swyn mwyaf i mi. Nid yw Shakespeare fymryn yn fwy dynol. Mor glir yw ei weledigaeth i mewn i'r galon ddynol. Mor danbaid y dadlena i ni gyfrinion y meddwl dynol, a thrwy hyny y dadlena ein hunain i ni. Wrth agor o'n blaen ddrama fawr dynoliaeth, dengys i ni y modd y mae Duw trwy'r oesau wedi bod yn addysgu dyn. Cysgod, i fesur mawr, yw bywyd dyn fel y portreadir ef yn y Beibl. Bywyd mewnol gwrol oedd ei fywyd, ac mor gyfoethog oedd ystyr ei weithredoedd a'i eiriau, nes yr oeddynt yn ddangoseg o'r hyn fyddai gweithredoedd a geiriau dynion hyd ddiwedd amser. Mor driw i anianawd dyn yw y da a'r drwg sydd yn ymgymysgu yn mhob un o wroniaid y Beibl. Myna y dduwinyddiaeth boblogaidd i ni dybied fod caritor Abraham, Jacob, Moses a Dafydd yn mron yn berffaith, yn mhell tu hwnt i ddim a welwn heddyw. Â amheuaeth boblogaidd i'r eithafbwynt arall, a sieryd yn unig am dwyll Jacob, ac am odineb Dafydd, a gofyn mewn gwawd, "Pa dduw yw yr hwn y dywedir fod y cyfryw ddynion yn ddynion wrth fodd ei galon?" Mae y ddau syniad yn gyfeiliornus. Nid oedd y dynion hyn ar un cyfrif yn berffaith, ac ni sonia y Beibl byth am danynt felly. Dynion hollol anmherffaith oeddynt; syrthiasant, cawsant eu cospi, a darfu iddynt ddwyn cosp eu drygioni gyda hwynt hyd eu bedd. Ond eu gogoniant oedd eu bod yn ymwybodol o'u hanmherffeithrwydd, ac nad oeddynt foddlon; eu bod

wedi ymddyrchafu uwchlaw moesoldeb cyffredin eu hoes; eu bod yn ymegnïo a'u holl enaid ar ol rhywbeth rhagorach; eu bod yn cael eu harwain gan Dduw i dir uwch na dim a gyrhaeddid eto; a'u bod yn ddynion a ymlynent o hyd, er gwaethaf eu pechodau, wrth yr ymdeimlad o Dduw. Yr oedd y da ynddynt yn cael ei anurddo a'i lychwino gan elfenau o hunan-gariad a chreulondeb; a gwelwn ynddynt—fel na welwn yn unman arall—y ddwy dueddfryd hyn yn ymgodymu y naill a'r llall, un yn buddugoliaethu heddyw a'r llall y foru, ond y da, ar y cyfan, ac yn y pen draw, yn cael yr oruchafiaeth. Wrth ddarllen hanes Jacob ni a welwn ein twyll ein hunain; ac wrth wrando ar lef alarus Dafydd ni a glywn nodau ein gwarth a'n hedifeirwch ein hunain. Nid delwau cŵyr yw y gwŷr hyn y gallwn ni grogi arnynt wersi mewn moesoldeb, fel y crogir dillad mewn maelfa i ddangos cyrch ffasiynau'r oes. Eneidiau dynol gwresog, byw, ydynt yn deongli i ni ein profiad ein hunain. Gwelwn sut y goddiweddodd brâd Jacob ef, sut y cafodd y brâd hwnw ei dalu yn ol, a sut y dilynodd ef yr hen batriarch megis cysgod erchyll yn cymylu ei fywyd holl ddyddiau ei bererindod; a gwyddom oddiwrth ein bywydau ein hunain nas medrwn ni byth osgoi canlyniadau ein gweithredoedd. Clywn Job yn ymddadleu ac yn herio Duw, ac wrth wrando tybiwn mai ein calonau ein hunain sydd yn ymbil yn nghanol profedigaeth lem. Clywn Nathan yn dweyd wrth Dafydd, "Ti yw y dyn," a gwyddom mai ein cydwybod ein hunain yw Nathan yn ein cyhuddo am ein camsyniadau. P'un ai llyfr dwyfol neu beidio yw'r Beibl, efe yn ddiameu yw llyfr mwyaf y galon a'r bywyd dynol a ysgrifenwyd erioed.

Neillduolrwydd y Beibl yw ei fod yn lyfr cysegredig dwy grefydd fawr, y grefydd Iuddewig a'r grefydd Gristionogol. Ystyriwn yr hyn mae yr Hen Destament wedi bod i'r Iuddewon—cenedl sydd bellach am ddeunaw canrif heb wlad ac heb gartref yn ei holl grwydriadau blin. Y llyfr hwn fu eu diddanwch pan yn cael eu herlid am fil o flynyddau gan y Cristionogion. Ystyriwn, eto, yr hyn mae y Beibl wedi bod i'r Protestaniaid—breinlen eu rhyddid oddiwrth ormes y Pab; arfogaeth gref yn erbyn eilunaddoliaeth a thrais yr offeiriaid; yn feithrinfa gwroniaid i Huguenotiaid Ffrainc, i Gyfamodwyr yr Alban a Phiwritaniaid Lloegr, yn dysgu iddynt aml i ryfelgan, ac yn rhoi iddynt obaith buddugoliaeth yn y diwedd.

Yn ddios haedda y cyfryw lyfr, sydd yn meddu ar hanes, ar enwogrwydd ac ar werth anghydmarol y Beibl, yr ystyriaeth fwyaf ofalus. Mae wedi bod gerbron y byd cyhyd—mae ei benodau diweddaraf yn 1700 mlwydd oed—mae wedi ei ddarllen a'i efrydu gymaint, fel y gallem dybio y dylai pawb fod yn ei ddeall er's llawer dydd. Ond carwn i chwi gofio fod y Beibl hyd adeg y Diwygiad Protestanaidd wedi ei guddio oddiwrth y werin mewn arch offeiriadol, iaith na fedrai neb mo'i siarad. Dim ond pedair canrif sydd wedi myned heibio er pan ddaeth y werin i feddiant o'r Beibl. Ychydig cyn hyny ymosodid ar y Beibl gan fynachod ac offeiriaid fel dyfais y Gwr Drwg: ac yr oedd pob gwybodaeth a berthynai i'r Beibl cyn amser Erasmus yn ofer-

goelus iawn ac yn hollol amddifad o elfenau symlaf beirniadaeth. Oddiar y cyfnod hwnw ceir cynydd cyson yn nghyfeiriad efrydiaeth mwy gwyddonol o garitor y Beibl: a thrwy ymdrechion llu mawr o ysgolheigion llafurus ac ymroddgar yr ydym bellach mewn gwell safle i farnu'r Beibl, i nithio y chwedlonol oddiwrth yr hanesiol, i ddidoli y gwir oddiwrth y cyfeiliornus, yr aur oddiwrth yr ysbwriel, nag hyd yn nod y sawl a fodolent ar adeg casglu y Beibl yn un llyfr. Ac eto, cyn belled ag y gellir barnu, ychydig iawn o argraff a wnaed gan y feirniadaeth newydd ar syniad y werin am y Beibl ac am yr amcanion y gellir ei gymhwyso ef attynt. Mae hyd yn nod weinidogion sydd yn hyddysg yn y feirniadaeth newydd, ac yn ei derbyn yn ei holl sylwedd, yn parhau i ddefnyddio y Beibl fel pe na bai dim yn bod, ac yn anghofio fod rhywbeth o'r pwys a'r dyddordeb mwyaf wedi cymeryd lle o barthed iddo. Gyda golwg ar y dyn cyffredin yn ein heglwysi Protestanaidd, ni olyga y Beibl ddim mwy iddo ef nag a olyga i'w deidiau. Un llyfr yw. Mae ei holl ranau yn gyfwerth. Mae un adnod gystal a'r llall; yr Hen Destament gystal a'r Newydd; Llyfr y Barnwyr gyfwerth a'r Epistol at y Philippiaid; geiriau wedi eu tori allan o'u cysylltiadau a dynir i olygu rhyw beth gwahanol hollol i'r hyn oedd yn meddwl yr ysgrifenydd; manylion lleiaf duwinyddiaeth y Cristion yn cael eu darllen yn ngoleuni dyrys-bethau hanes yr Iuddew. Cyhoeddodd Dr. J. Mason Neale, emynydd tra adnabyddus, bregeth yn ddiweddar ar y testun, "Ac yn awr, O Frenin, tyred i waered yn ol holl ddymuniad dy galon." Ni sonia'r awdwr yn unman am ystyr llythyrenol yr ymadrodd, sef cais y Zephiaid at Saul i ddyfod i wared fel y gallent hwy draddodi Dafydd i'w ddwylaw. Cymhwysir ef at Grist yn dyfod i waered, yn gyntaf yn ei ymgnawdoliad, yn ymwrthod a choron ei nefol fawredd, ac yn dyfod i wisgo'r goron ddrain, ac yn ail at Grist yn dyfod i waered yn y cymun ar arch yr offeiriaid. Tynu ar y dychymyg yn gyfangwbl yw ceisio esbonio'r Beibl yn y cyfryw fodd. Neu, cymerwch y geiriau, "Na chyffwrdd, ac na archwaetha," a ddyfynir yn aml ar lwyfanau dirwest fel geiriau yn cynwys gorchymyn pendant oddiwrth yr Apostol i beidio gwneud cymaint ag estyn gwydraid o win i gymydog. Ymadrodd cyffredin yn mhlith y bobl llymion eu moesau oedd y geiriau hyn, a dyfynir hwy gan Paul i'r dyben o'u condemnio. Beia y sawl ydynt yn ymddarostwng i'r fath reolau a'r fath ordinhadau.

Gwneir y geiriau i olygu rhywbeth hollol wahanol i'r hyn ddysgai yr Apostol. Nid ydyw yr adnodau hyn ond dwy engraifft allan o filoedd allesid ddyfynu i ddangos y cam ddefnydd a wneir o'r Beibl.

Beth, gan hyny, sydd genym yn y Cyfiethad Awdurdodedig o'r Beibl. Sylwch yn gyntaf ar y penawd. Y Beibl, hyny yw Y Llyfr. Ond enw diweddar iawn yw yr enw hwn. Dim ond o fewn canrifoedd diweddar y mae'r Beibl wedi cael ei alw "y llyfr" yn y rhif unigol. Pum cant o flynyddau'n ol ni elwid y Beibl "To Biblion," y llyfr, ond "Ta Biblia," y llyfrau, enw llawer iawn mwy cymhwys; a phe byddai'r enw hwn wedi cael ei gadw, byddai wedi rhwystro y syniad, cyffredinol bron, mai un llyfr yw y Beibl, ac nid casgliad o lyfrau,

wedi tarddu o weithgarwch llenyddol y genedl am ddeuddeg cant o flynyddau, darnau a thameidiau o lenyddiaeth fawr cenedl wedi eu casglu at eu gilydd. Yr hyn a gawn ni yn y Beibl yw nid un llyfr ond llyfrgell wedi ei dwyn at ei gilydd o fewn yr un cloriau. Ni chafodd y ffurf luosog o'r enw ei ddefnyddio hyd y bumed ganrif. Cyn hyny, yr ysgrythyrau, neu yr ysgifeniadau, oedd yr enw.

A gadael yr enw, ac agor y llyfr, beth a gawn ni? Os mai copi yn perthyn i'r Babaeth sydd genym, neu un o'r copiau hynaf perthynol i'r Protestaniaid, ni a welwn ei fod wedi ei ranu yn dair rhan fawr; yr Hen Destament, yr Apocrypha, a'r Testament Newydd. Gadawn o'r neilldu, fodd bynag, yr Apocrypha, er yr ystyrir ef gan y Pabyddion gyfuwch awdurdod a'r rhelyw o'r Beibl. Mae y Protestaniaid yn unfryd wedi gwrthod iddo ran na chyfran yn y Beibl.

Cynwys y ddwy ran sydd ar ol hanesion, cyfarwyddiadau cyfreithiol, barddoniaeth, prophwydoliaeth, llythyron, chwedloniaeth, emynau, pregethau, traethodynau, ystraeon, damhegion, diarhebion, traethodau, ac yn mron pob math o lenyddiaeth.

Mae yn yr Hen Destament bedwar ar bymtheg ar hugain o lyfrau gwahanol, ac yn y Testament Newydd saith ar hugain, a gwna'r cyfan lyfyrgell o chwech a thrigain o gyfrolau bychain. Cyn belled ag y mae a fyno a namyn un llyfr deugain yr Hen Destament, ffurfiant, fel y dywedais, ddarnau a thameidiau o lyfrgell fawr cenhedl wedi eu casglu at eu gilydd.

RHAGFARN YN ERBYN UNDODIAETH.

Gwrandewch stori Dr. Mellone. Dywedai fod rhagfarn cryf yn erbyn yr enw Undodiaeth. Ni chyfeiriai at y rhagfarn sydd yn gorphwys ar anwybodaeth o'r hyn gred Undodiaid; llefarai am rywbeth wedi gwreiddio'n ddyfnach, yn fwy anhawdd i ymdrin ag ef, ac un nad oedd i'w wella'n unig drwy ddadganiad o'r hyn dybiwn ein bod yn gredu. Ni allai un dyn o sylw cyffredin amheu bodolaeth y rhagfarn hwn. Glynai wrth ein safle dduwinyddol mor agos ag y glyna ei gynffon wrth y ci. Nid oedd y Dr. am awgrymu cyllell meddyg i'w symud; ond nid oedd eisieu siglo cymaint ar y gynffon. Nid oedd yn wastad yn ddarnodiad cywir o'i syniadau. Teimlai efe fwy o ddyddordeb yn y pen a'r galon nag yn y gynffon. Mewn gair yr oedd egwyddorion a delfrydau Undodiaeth yn fwy pwysig na'r enw wrth yr hwn yr adwaenir hwy.

O FON I FYNWY.

III.

Yr oedd heulwen yr haf yn suddo i Fau Aberteifi dros y Crug Bach, a'i belydrau yn goreuro hyd yn oed flodau aur yr eithin ar Fanc yr Hafod, ac yn rhoi tân yn ngrug y Rhos, heb eu hysu. Nos Sul ydoedd, heb dwrw ar y waen, na thrwst hyd ochr y bryn. Am y meusydd gellid cymhwyso geiriau'r bardd :—

" Hedd ymdaenodd am danynt,
A swn y gerdd sy'n y gwynt "

—swn cân orfoleddus hedydd olaf hwyrddydd haf.

Crwydraf dros y banc. Mae'r llwybr y tramwyais drosto ganwaith gynt? Mae'r clawdd yr eisteddais yn ei gysgod fil o weithiau? Y mae cnwd o geirch yn tyfu ar y llwybr, ac nid oes gysgod y clawdd yn bodoli mwyach. Nid anaml y derfydd y cysgod pan ddiflana'r clawdd. Y mae llawer dyn yn taflu cryn gysgod o bwysigrwydd, a dylanwad, a mawredd yn ei oes. Derfydd y cysgod hwn hefyd gyda'r dyn :

" Efe a gilia fel cysgod ac ni saif."

Croesaf gae cul, ac wele fi yn Mlaen yr Hafod. Nid yw ond bwthyn, heb lofft na pharlwr, a'r llechi ar ei ben wedi hollti dan ddyrnodau amser, a'r meini yn ei furiau wedi malurio gan ystormydd y blynyddau, a'i ffenestri yn bwl ac annisglaer gan henaint, fel llygaid mamgu. Y mae gardd y tu cefn i'r bwthyn, a meillion Yspaen yn tyfu'n dàl ar ei chlawdd, oll yn troi i'r dwyrain, fel crefyddwyr defosiynol. Awel y gorllewin yn y gauaf sydd yn gyfrifol am hyn. Y mae ôl yr awelon arnom oll. Y mae tâs o wair a mwdwl yn ei hymyl yn yr ydlan—rhan o'r ardd. Y mae twlc a beudy yn nglyn wrth y ty. Y mae'r dyn a'r fuwch a'r mochyn yn byw'n agos i'w gilydd yn y wlad, fel Adda a'r anifeiliaid gynt yn Eden.

Nid yw Dafydd a Marged yn byw yma mwy, ond nis gallaf feddwl am neb arall yn trigianu'r hen breswyl ; y mae toilu ysgafn dihidio Dafydd yn poeri dybaco disylwedd drwy ddanedd ysbrydaidd o flaen y drws ; ac y mae ysbryd Marged yn golchi crys wrth ffrynt y ty, mewn ysbryd twba. Ac y mae toilu Ifan y mab yn dringo'r drain o flaen y ty, a'i fam yn gwaeddi arno i ddisgyn ar frys—rhag digwydd peth a fo gwaeth.

Ba oriau hapus dreuliasom yn chwareu pêl a chart bach yn y caeau o gylch, ac yn rhedeg i'r heol bob tro y delai cart heibio, yr hyn beth a ddigwyddai amryw weithiau yn ystod y mis. Unwaith gwelwyd dyn yn myned heibio ar gèl pren (ceffyl haiarn), ond lled-dybiai Marged mai y diafol ydoedd, yn marchogaeth olwyn ; fel y gwrachïod hyny a enfyn y gwr drwg drwy'r awyr ar noson ystormus yn marchogaeth ysgubelli. Yr oedd Marged wedi gweled gweledigaethau. Un tro pan yn myned gyda'i hewythr a haid o foch i Landyssul dros Riw'r Amwisg, gwelodd fochyn yn croesi'r heol ac yn diflanu yn y clawdd. Yr oedd yn blygeiniol iawn, a llwydni'r bore heb ddechreu ymddangos ar Fanc y Fadfa. Gwaeddodd Marged ar ei hewythr fod un o'r moch wedi myned i'r clawdd. Ond yr oedd y moch i gyd ar gael. Pa ryfedd i Marged haeru fyth ar ol hyny ei bod wedi gweled ysbryd mochyn ar Riw'r Amwisg ! Ac onid oes yno heddyw gareg wen o dan ba un y claddwyd rhyw hen frenin yn yr oesoedd gynt? Ac nid oedd brenhinoedd yr amser hwnw nemawr gwell na moch.

Gwelodd Dafydd hefyd lawer o weledigaethau yn ei oes, yn enwedig un tro pan y gwelodd wr a gwraig hynafol un nos Galan yn galw yn ei dŷ, yn newyńog a lluddedig am damaid a llymaid i'w cynal ar eu taith. Ac wedi derbyn o honynt nodded oddiar law garedig Marged, ac i Ddafydd ei hebrwng encyd o ffordd, hwy a ymosodasant arno gan ei anafu'n dost, er galw o hono nerth ei ben am gynorthwy Quito'r ast a Marged y wraig am yn ail. Diambeu y gwyr erbyn heddyw mai morwyn yr Hafod oedd y gwr, a'r gwas oedd y wraig. Y mae amser wedi rhoddi ei falm ar glwyfau Dafydd, ac mae ei friwiau wedi hen wella erbyn heddyw.

O dan y ty y mae math o dransh (*trench*) mawr, ac yr oedd yn anferthol fawr yr amser hwnw. Y mae'r blynyddau yn lleihau pobpeth ond gofid. Yr oedd eithin a grug a rhedyn hyd ei ymylon, a brwyn a hesg ar ei waelod, a digon o gors i'n gwneud i gyd yn shwc-shac. Ac nid yw plant yn hapus heb wlychu eu traed, pysgod ai peidio. Y mae swn dedwyddwch diderfyn yn y gair shwc-shac. I lawr ddau led cae yn y cwm rhwng cae Pantbach a meusydd Alltymaen y mae gardd. Perthyn i'r blaenaf o'r ffermdai a nodwyd. Os o fewn yr ugain mlynedd nesaf y digwydd fy ysgrifbin ddadblygu ei bwer, caiff gynyg teg ar ddesgrifio fy hen argraffiadau sydd yn glymedig am ardd Pantbach. Saif gryn bellder o'r ty, mewn congl o gae sydd yn fwy nodedig am ei gnwd o ddail troed yr ebol nag am ei shiprys, a chynwysa lawer mwy o gerrig nag o ddaear. Y mae llwybr yn arwain—neu yr oedd yn arwain—o Flaen-yr-Hafod i Bantbach. Ond am yr ardd, yn enwedig dan oruchwyliaeth Nani loewlan, pwy fedr ei desgrifio? Y mae lliwiau holl flodau'r cread yn rhy wan, a'u harogl yn rhy ddof i roddi syniad i neb am ragoriaeth dwbwl-eisis (*double-daisies*) gardd Nani. Meddyliwch eich bod ar daith dros fryniau geirwon, moel, a thrwy wastadeddau crâs a diffrwyth, ac wedi trafaelio cyfnodau hir heb laswelltyn, na deilen, na blodyn, yn gweled twr o goed yn ymdòni draw ar orwel y bore. Wrth deithio yn y blaen gwelwch fod y coed yn ffurfio yn ddarn ysgwar. Wrth ddynesu, gwelwch gadwyni aur meillion Yspaen yn hongian ar bedwar clawdd gardd, a drain gwynion newydd fwrw eu blodau perarogl o gylch iddi, a'r onen yn deilio yn llwyd-las ffres yn eu mysg, a'r fedwen yn bwrw allan ddail gwyrddlas, byw yn eu plith, a sycamorwydden lasgoch ei dail ar bob congl i'r cloddiau, a'r gwcw yn canu ar un, a'r binc ar y llall, a theiliwr Llunden ar y drydedd, a'r deryn du ar yr olaf. Wrth ddynesu clywch gân fechan y dryw bach yn y drain.

Y mae un glwyd yn agor i'r ardd, ac eithin a drain wedi eu plethu drwyddi. Y mae'r coed yn gymhleth uwchben y glwyd. Ar ochr y clawdd wyneba'r haul y mae

"Llu y briall borëol"

yn agor emrynt aur i syllu ar deyrn y dydd, gyda syndod baban yn eu llygaid. Y mae crinllys (*violets*) gwylltion yn plygu pen yn wylaidd rhwng y borfa werdd a'r mwswgl yn y gwrych, ac y mae ambell i *hyacinth* lâs fel y nef yn eu mysg yma a thraw, yn gyfymyl â blodau'r syfi gwyn diniwed. O fewn yr ardd y mae gwelyau gwresog a llyfn, a gwynder y calch yn gymhleth â chochni y pridd yn flancedi drostynt. Oddiamgylch y gwelyau y mae llwyni eirin Mair a chyrens (*currants*), a murmur y gwenyn i'w glywed yn eu dail. Y mae'r *paeony* yn gwrido'n goch yno, a'r lili yn wyn a phur gerllaw, ond nid y blodau hyn yw gogoniant yr ardd, ond y rhesi gogoneddus o ddwbwl-eisis gwyngoch yn codi yn deuluoedd bychain o dwmpathau o wyrdd-ddail yn y pridd, a gwlith y boreu yn emau rhwng eu fflur-ddail (*petals*). A Nani yn cerdded rhwng ei phlant-flodau tlysion yn eu gwelyau yn yr ardd, a'i gwallt yn drefnns, ei phais a'i gwn bach yn lân a newydd, ei chap gwyn fel y carlwm

am ei phen, a'i dwy glocsen am ei thraed mor loew fel y ag y medrech weled eich wyneb ar eu cefnau! Dechreuais drwy geisio desgrifio rhyw ardd ddelfrydol yn niffaethwch y ddaear, ond gwyddwn mai gardd Nani Bantbach fyddai hono cyn y diwedd. Ond rhaid disgwyl am athrylith y dyfodol i wneud cyfiawnder â dwbwl-eisis Nani.

Yr oedd ty Nani bob amser yn loewlan a phob llestr o'i fewn yn disgleirio yn ngoleu'r dydd ac yn adlewyrchu'r tân yn y nos. Ac yr oeddem ni blant yn hoff o gael myn'd i chwareu i Bantbach—cawsem rywbeth gwell na'u gilydd yno bob amser. Ac yr oedd Nani yn ddynes amynedd-gar—ond rhoddwyd terfyn ar amynedd Nani pan gafodd ni un tro yn ceisio dynwared dienyddiad rhyw lofrudd yr oedd son am dano yn y "Faner" ar y pryd. Y mae pobl y wlad yn hoff o ddarllen am lofruddiaeth, a'r plant yn hoff o wrando ar y cyfryw bethau. Ond canlyniad lled echrydus i hyn oedd chwareu "crogi bach" yn yr ydlan. Os wyf yn cofio yn dda myfi oedd y llofrudd, y cartws oedd y carchar, ac Ifan oedd y dienyddwr—ond daeth pastwn prydlon Nani i roddi terfyn ar bethau mewn pryd. Y mae'r fedwen wedi achub llawer un arall rhag y grogbren.

Y mae Pantbach gryn bellder o gapel ac Eglwys. Felly ar nos Sul byddai yn grynhofa, aml i dro, i fechgyn a merched yr ardal. Fwy nag unwaith daw i'm cof y cyfarfod-ydd hyn,—gweision a morwynion, meibion a merched y Darren, yr Hafod, Alltymaen yn tyru at eu gilydd yr unig noson yn yr wythnos oedd yn rhydd ganddynt i ymgomio'n ddifyr a chanu'n llawen; gofalai Nani na fyddai gormod o faswedd yn cael lle yn y cwrdd. Cof genyf am ganu hwylus iawn ar yr hen gân bobl-ogaidd,—

"Ar làn hen afon Ddyfrdwy ddofn
Eisteddai glân forwynig,
Gan ddistaw sisial wrthi ei hun—
Gadawyd fi yn unig,
Heb gâr na chyfaill o fewn y byd,
Na chartref chwaith fyn'd iddo;
Drws ty fy nhad sydd wedi ei gloi—
'Rwy'n wrthodedig yno,"

ac yn y blaen. Mor hwylus oedd y canu, a Jack Gwmarch yn canu tenor a Harri Alltymaen yn chwyrnu bass; Mari'r Hafod yn swno'r soprano, a Nansi'r Darren yn dilyn gyda'r alto, a'r lleill o honom yn dilyn, pob un a'i lais ei hun, fel y gallai! Nid wyf wedi cael cystal blâs ar gymanfa ganu na chynt na chwedyn.

Ofnwyf fod canu'r hen ganiadau Cymreig yn myned allan o ffasiwn, a thuedd gref yn merched a bechgyn y wlad i ddilyn arferion y dref. Y mae bechgyn Sir Forganwg yn dod yn ol yn yr haf, a thônau diflas a geiriau disynwyr y *music halls* yn eu cegau, ac arogl mwg a chwrw'r tafarnau ar eu nodau.

Ond dwbwl-eisis Nani oedd fy nhestyn enyd yn ol; ofer imi geisio eu desgrifio, os nad wyt ti, ddarllenydd hoff, wedi gweled yn moreu'th oes ryw ardd neu ryw flodau tebyg i'r blodau hyn. Os ydwyt, dwg eu lliwiau, a rho ar fy nwbwl-eisis i; a thi a weli eu prydferthwch yr un fath a minau.

Y mae'r nefoedd mor agos atom yn nyddiau mebyd, medd Wordsworth. Ar Fanc yr Hafod y mae llèn y byd ysbrydol deneuaf i mi; yno o hyd clywaf swn murmuron y byd arall. Yno y daw nef a daear agosaf at eu gilydd—i mi.

Crwydraf at yr hen ardd dri-chornel gerllaw: nid gardd Nani mo hon. Y mae drain ac ysgall a mieri wedi ei goresgyn, ac wedi mwrdro llawer o'r hen blanhigion oedd yno y dyddiau gynt. Ond nid ydynt yn gallu lladd yr hen adgofion. Y mae'r coed bych-ain blanwyd gan fy nhad ar ei chloddiau wedi myned yn dàl a dilun, a gwyntoedd gauafol y gorllewin wedi eu gwargrymu yn gynt na phryd. Nid wyf yn meddianu troedfedd o arwynebedd y belen ddaearol hon, ond yn yr ystyr oreu, myfi biau'r ardd hon. Y tirfeddianydd nas gwelodd hi erioed sy'n derbyn ei rhent, ond

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

:o:

YR YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

:o:

GOLYGWYR :

Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL, A SARNICOL,

COUNTY SCHOOL, ABERTILLERY.

:o:

"PROFWCH BOB PETH DELIWCH, YR HYN SYDD DDA."

:o:

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

:o:

CYFROL 9.

1909.

LLANDYSSUL :

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

myfi yw ei pherchenog, canys un o drysorau fy nghalon yw.

Noson o haf yw, onide? Ac mae gan yr haul ychydig amser eto cyn suddo i'r môr draw yn mhell y tu hwnt i'r Crug Bach. Lled-orweddaf ar ben y clawdd, megys ag yn yr amser gynt, ac ail freuddwydiaf freuddwydion ieuenctyd.

Yr wyf yn hogyn deg neu ddeuddeg oed. Fy mhrif gyfeillion yw'r bugeiliaid ar y bencydd—Dai 'r Hafod a Ianto Alltmaen. Gwelaf hwy bron bob dydd. Y mae Dai 'r Hafod yn hogyn garw ei ystum a'i dafod, ac y mae wedi dysgu imi lawer o bethau y buaswn yn well hebddynt. Y mae wedi cael tipyn o ysgol, ond y mae'r hyn a ddysgodd yno wedi myn'd o'r cof bron i gyd. Ei brif uchelgais ydyw dod i allu smocio gystal a'r gwas mawr a medru myn'd "ar gered i garu" gyda'r ail was. Y mae wedi bod yn ffair Llandyssul ddwywaith, ac wedi meddwi'n garlibwns unwaith. Yn rhinwedd y meddwi hwn teitla ei hun yn gryn arwr. Y mae'n hogyn digon dyddorol, ond dipyn yn *sly* ar brydiau. Credaf fod arno lysfam; a rhaid maddeu llawer oblegid hyny.

Y mae Ianto Alltmaen yn fachgen hollol wahanol. Nid yw yn chwenychu ymragori mewn dybaco a diod, nag unrhyw beth o'r fath. Am hyny y gelwid ef yn Ifan. Golyga Ianto gymeriad yn tueddbenu at yr afradlon. Daw o ysgol yn agos i lan y môr; ac y mae wedi bod yn Nghei-newydd lawer gwaith. Y mae gwareiddiad wedi cael gafael gref ynddo, er iddi fod dan gudd clogyn y bugail. Medr Saesneg yn dda; sieryd yr iaith fain gydag acen gwr bonheddig. Y mae ganddo lyfr *English History*, a darluniau rhagorol ynddo o Richard I. a Rhyfeloedd y Groes. Yr wyf yn gweled Richard eto yn fyw o'm blaen a'i arfwisg o ddur am dano, a tharian yn ei law ac arni lun croes, a chleddyf mawr yn y llaw arall, a'i garn yntau ar lun croes. Medr Ifan hefyd dynu llun llong yn amgenach na'r un gwas mawr yn y gymydogaeth, a gŵyr enwau'r hwyliau a'i gwahanol ranau hefyd. Hogyn gwylaidd, diniwed ydyw, a chanddo lais main, mwynaidd. Tylodi sydd wedi ei yru ef o'r ysgol i blith y defaid mân ar y mynydd. Nid ymleddais âg ef erioed; nid oedd tuedd pigo cweryl yn Ifan. Nid yn unig yr oedd wedi dysgu Saesneg, ond medrai beth *French* hefyd. O leiaf medrai gyfrif yn yr iaith hono heibio ugain. Mor bell ag wyf yn cofio, dyma fel y swniai'r geiriau Ffrancaeg :—

Un, dics, don, tri, cwatr, sinc, sept, white, niff, dics, onsi, dowsi, treisi, &c.

Nid oedd ei *French* yn ddealladwy iawn i Ffrancwr, ond yr oedd yn ddigon da i'r defaid ar y mynydd. Nid er mwyn myned i Paris y dysgasai Ifan Ffrancaeg.

Ac yr wyf wedi son lawer gwaith o'r blaen am fy hen gyfaill Jim, a'i groen clir glân, a'i wallt melyn gloew, a'i lygaid gleision direidus. Nis gwelwn Jim ond ar ddydd Sadwrn a'r Sul. Ai i Ysgol Talgarreg, ac yr oedd radd yn uwch na mi mewn dysgeidiaeth. Gwneid pobpeth yn well yn Nhalgarreg nag yn Nghapel Cynon; fel y ceir rhagorach pethau yn Llunden nag yn Llandyssul. Yr oedd llaw-ysgrifen Jim fel copor-plat; a darllenai Gymraeg a Saesneg fel offeiriad. Yn wir, gallai wneud pobpeth yn well na mi ond canu. Ac nid oes gan fy ffryndiau goreu farn uchel am fy ngalluoedd yn y cyfeiriad hwnw. Yr oedd yn fachgen cryfach o lawer na myfi; ond yn mhen y blynyddau cefais y gorchwyl prudd o gyfansoddi ei ysgrifen fedd :—

"Trwm wylaf, cofiaf mewn cur — fore'th oes
Fer aeth heibio 'n brysur—
Dyddiau heulog diddolur—chwareu llon
A mill a blodion ym Mhwll-y-bladur."

Tua'r amser hwn hefyd y cyfarfyddais a'm hen gyfaill Dan — tàl, teneu, glanbryd a chall. Yr oedd ei eiriau bob amser fel oracl, a'i farn ar bobpeth yn derfynol. Yr oedd yn ysgolor penigamp, wedi pasio 'r

Standard VII., ac wedi meistroli holl ganghenau gwybodaeth—a lled sibrydid ei fod wedi dechreu dysgu Euclid ac Algebra. Yr oedd ganddo frawd yn deiliwr mwyaf ffasiynol yr ardal, a brawd arall yn y coleg. Onibai mai "Sosin" oedd, tebyg y buasai ei rieni am godi Dan yn "ffeiriad"—dyna oedd siarad yr ardal. Yr oedd yn siwr o ddod yn ddyn mawr, a therfynu ei oes yn glerc mewn offis, os nad yn rhywbeth mwy fyth—dyna farn gwas mawr Alltmaen am dano. Heblaw gwybod y cwbl—a pheth yn rhagor, fel y d'wedwyd eisoes—yr oedd Dan yn gallu canu, ac yn deall Sol-ffa, a chanddo grap hefyd ar yr hen nodiant. Daeth yn fuan yn feistr ar y *whistle* din, a chyn nemawr amser dechreuodd ganu ar y *flute*. Yn wir, wyddis ar y ddaear beth a ddelai o Dan onibai iddo fyn'd i Lunden, a dod yn ol yn sâl—gan "fflamashwn," meddai rhai—gan hiraeth, medd y lleill. Ni wiw ysgrifenu rhagor am Dan, rhag ofn i'm dynoethiad o hono fy nwyn i ddwylaw'r gyfraith, yr hon a wasanaetha heddyw gyda'r un medr ag y gwnai ysgrifenu a seiffro yn yr amser gynt.

B'le mae Dai 'r Hafod erbyn heddyw? Nis gwn, os nad yn nyfnderoedd y pyllau glo. Yno y mae canoedd o'i fath, a llawer byd ohonynt yn fechgyn sobr, diwyd, a meddylgar erbyn heddyw. Y mae Ianto hefyd wedi diflanu dros fy ngorwel er's blynyddau bellach, ond lled-dybiaf ei fod yn aros yn un o wladwyr syml, meddylgar Sir Aberteifi hyd y dydd hwn. Er gwasgar o'r blynyddau yr hen gyfeillion hyn, y maent o hyd yn aros o fewn fy myd bychan mewnol i—cyfarfyddaf hwy eto yn nheml adgofion.

Y mae'r haul wedi hen suddo o'r tu cefn i'r Crug Bach; y mae'r Allt Ddu yn dechreu gwgu arnaf gerllaw; lleinw cysgodau y cyfnos Gwm Cwmarch; gwelaf fwg glâs yn esgyn yn syth i'r awyr o simne Alltymaen—arwydd fod Marged yn parotoi swper; y mae'r defaid wedi eu gyru i'r cae nos; suddodd yr ehedydd i'w nyth yn y grug; clywaf aderyn du yn chwibanu ei gân hwyrol ar gelynen y waen; swnia gwaedd ceiliog y rhos o'r mynydd gerllaw; cyrhaedda cân merch Pantbach fy nghlust dros y caeau gwlithog; y mae'r nos yn ymgasglu o'm cylch, ac amser gorphwys gerllaw. Rhaid ymysgwyd a chyfeirio fy nghamrau at ddôr yr hen fwthyn bach ar y llethr gerllaw.

S.

CYFARFOD CHWARTEROL CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarterol y Gymdeithas uchod yn nghapel Ciliau Aeron, dydd Mercher a dydd Iau, Hydref 13eg a'r 14eg, ac yn yr holl oedfäon yr oedd cynulliadau lluosog iawn y rhai a lanwent y cyssegr newydd hardd. Nos Fercher, cymerodd y gwasanaeth y ffurf o Gyfarfod Diolchgarwch am y Cynhauaf,. Dechreuwyd y cwrdd yn darawiadol a chymwys iawn gan yr Hybarch. John Davies a phregethwyd gan y Parchn. E. Rhys Dennis a T. Arthur Thomas. Traethodd Mr. Dennis, ar y "Crist Yspryd" yn ei wahanol agweddau, ac yr oedd ei ddull o drin ei destyn—"Onid hwn yw y Crist? —dipyn yn newydd i'r rhan fwyaf o'i wrandawyr. I'r cyfryw a gymerant ddyddordeb yn y Dduwinyddiaeth Newydd yr oedd ei sylwadau yn dderbyniol iawn. Testyn

Mr. Thomas oedd "Tangnefedd Duw" a thriniodd ef yn fedrus ac effeithiol. Y boreu canlynol dechreuwyd y gweithrediadau fel arferol gyda Chyfarfod y Pwyllgor, pryd y cymerwyd y gadair gan y Parch. Lewis Williams, Llywydd y Gymdeithas. Yn mhlith pethau ereill rhoddwyd croesaw gwresog i'r Parch. E. R. Dennis ar ei ymweliad cyntaf ag Eglwysi Undodaidd Sir Aberteifi, yr hyn a gydnabyddodd yn bwrpasol. Yna cafwyd gwasanaeth, y rhan ddefosiynol o'r hwn oedd dan arweiniad y Parch. R. C. Jones, a thraddodwyd pregeth rymus ar "Gariad Hollfuddugol Duw," gan y Parch. M. Evans. Etto yn y prydnawn daeth torf fawr yn nghyd i glywed pregethau gan y Parchn. W. Alva Richards a J. Hathren Davies. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. M. Evans. Traddodwyd Pregeth y Gymdeithas gan Mr. Richards, a gwnaeth gyflawn gyfiawnder a'i destyn godidog "Goleu yn y Cwmwl." O'r dechreu i'r diwedd cadwodd y gynulleidfa mewn hwyl neillduol gyda'i feddyliau aruchel yn gystal a chyda'i iaith dlôs a barddonol. Traethodd Mr. Hathren Davies ar "Gymhwysiad Cristionogaeth at faterion Cymdeithasol." Gwnaeth cyfarfod yr hwyr ddwyn yn nghyd y gynulleidfa fwyaf luosog yn yr holl gyfres, ac yr oedd pawb yn ymddangos yn awyddus i glywed rhagor o "eiriau'r bywyd tragywyddol." Y tro hwn dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. W. A. Richards, a chafwyd dwy bregeth nerthol a dyrchafol iawn gan y Parchn. E. O. Jenkins a D. G. Rees. Un o agweddau mwyaf dymunol y cyfarfodydd oedd presenoldeb nifer fawr o aelodau eglwysi o enwadau eraill, yn cynwys Rheithor y Plwyf a Gweinidog Annibynol o'r gymydogaeth. Ar y diwedd cyflwynwyd pleidlais o ddiolchgarwch i'r cyfeillion yn Ciliau am eu lletygarwch, ac mewn atebiad ar ran y gynulleidfa gwnaed ychydig sylwadau gan y Parch. E. Ceredig Jones, yr hwn a ddesgrifiai ei hun fel curad y Parch. Lewis Williams. Agwedd darawiadol arall o'r cyfarfodydd ardderchog hyn oedd y canu cynulleidfaol rhagorol o dan arweiniad medrus Mr. Evan Evans, arweinydd canu y Capel.

ARGRAFFIADAU O'R CYFARFODYDD.

Mr. GOL. Caniatewch i mi wneud ychydig sylwadau ar y Cyfarfodydd Chwarterol yn y Ciliau. Cafwyd cynulliad gweddol dda nos Fercher, boreu dydd Iau yr oedd y Capel yn weddol lawn, prydnawn a'r hwyr yr oedd y capel yn orlawn. Darllenwyd bedair gwaith, unwaith ar ddechreu pob cyfarfod. Cymerwyd tair o'r rhanau o lyfr y Salmau, ac un o lyfr y prophwyd Isaiah. Yr oeddynt oll o dueddiad defosiynol a chymhellent ysbryd addolgar. Cawsom saith o bregethau. Cymerwyd un testyn o'r Hen Destament, pedwar o'r tair Efengyl gyntaf, un o'r bedwaredd Efengyl, ac un o'r Epistol at y Rhufeiniaid. Dyma y testynau:—"Deuwch, gwelwch wr a ddywedodd imi yr hyn oll a wnaethum, onid hwn yw y Crist?"; "Syniad y cnawd marwolaeth yw; syniad yr yspryd, bywyd a thangnefedd yw. Nid yw teyrnas nefoedd fwyd a diod, ond cyfiawnder, a heddwch, a llawenydd yn yr Yspryd Glan."; "Cerwch eich gelynion, gwnewch dda i'r rhai a'ch casant, a gweddiwch dros y rhai a'ch erlidiant"; "Efe a guddia ei oleuni a chwmwl; efe a wasgar ei gwmwl goleu; pwy sydd yn dysgu fel efe?" "Megis yn y nefoedd felly ar y ddaear hefyd"; "Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw."; "A phwy bynag a'th gymhello i fyned gydag ef un filltyr, dos gydag ef ddwy."

Mae y ffaith nad oes ond un testyn wedi ei gymeryd o'r Hen Destament, un o'r epistolau, pump o'r efengylau, a dim ond un o'r rhai hyn o'r bedwaredd efengyl yn ddyddorol; awgryma duedd y meddwl crefyddol diweddar i ganolbwyntio yn hanes bywyd Iesu Grist, ac yn y bywyd hwnw fel y mae wedi ei gofnodi yn y ffordd mwyaf syml ac ymarferol. Mae meddyliau y pregethwyr yn tueddu i fyn'd i lygad y ffynon, at

fywyd yr Iesu yn ei agwedd mwyaf ymarferol. Chwiliant am yr hyn sydd yn cyffwrdd yn agosach a bywyd y byd ac y maent yn llai duwinyddol. Nid duwinyddol ond ymarferol a dâ ydoedd amcan y rhanau o'r Epistol at y Rhufeiniaid, a defnyddiwyd y rhanau barddonol o Lyfr Job i gysuro a nerthu y galon. Aeth pob un at ei waith yn ei ffordd ei hun, ond amcanai pob un at gynhorthwyo a nerthu calonau'r gwrandawyr.

Wrth edrych yn nes ar y pregethau cawn fod dwy o honynt megis yn gosod sylfaen gobaith y galon yn nghariad Tad tragywyddool ac yn y modd caredig a doeth yr ymddyga tuag at ei blant yn amgylchiadau bywyd. Dysgwyd yn eglur a phwysleisiwyd yn gryf mai cariad, a chyfiawnder, a doethineb, a gallu anfeidrol yn cael eu defnyddio i'r amcanion mwyaf gogoneddus a daionus ydyw sail hyder y ffydd Undodaidd. Cyfeiriai tair o honynt at ddelfryd foesol y Testament Newydd mewn gwahanol agweddau. Gwelai un hi fel yr egwyddor fyw, fel yr ysbryd tragywyddol drwy yr hwn y gwnaeth Iesu Grist ei waith, a thrwy yr hwn yr ydym ninau yn cael ein gweledigaethau, ein hysbrydoliaeth, ein rhybuddion a'n nerth yn ol y dydd. Gwelai y llall hi fel breuddwyd y byd am y nefoedd yn cael ei sylweddoli yma heddyw yn mywyd y Cristion. Yr oedd fel pe buasai wedi gweled nefoedd newydd Ioan yn dyfod i waered oddiwrth Dduw i ddechreu gwneyd daear newydd yma heddyw. Gwelai y trydydd hi fel angyles foneddigaidd a haelionus ei chalon na fedrai foddloni ar ugain swllt yn y bunt, ond yn llawen os byddai eisiau rhoddi deugain swllt y bunt. Y mae hi yn byw ei bywyd nefol nid am ei bod yn cael ei gorfodi, ond am ei bod yn llawenhau mewn gwasanaeth i'r gwan. Yna dywedodd brawd arall wrthym fod yn rhaid i ni gorphori'r ddelfryd foesol hon mewn iechyd gwell, mewn gwell tai, gwell amgylchoedd, mwy o dâl am waith, gwell gofal am y gwan, y claf, yr hen a'r methiedig. Pan mae brawd wedi treulio y rhan fwyaf o'i fywyd i geisio sylweddoli hyn, mae ganddo hawl i siarad. Yna daeth ein brawd arall a'i destyn byr i'n cyfeirio at yr unig gymhelliad sydd yn ddigon cryf i'n dal yn ddyfal barhaus gyda'r gwaith da. Rhaid caru Duw a'n holl galon, a'n cymydog fel nyni ein hunain. Cariad y Tad yn sylfaen, cariad y plant at y Tad ac at eu gilydd yn brif gongl faen. Nid yw Credo'r Undodwr yn un faith, ond y mae yn ddiofn, yn fyw, yn nerth i'r enaid, ac yn gysur i'r galon. Gwrandawai y bobl yn astud. Dywedodd un fod safon y pregethu mor uchel ag y mae wedi bod yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf.. Yr oedd pawb yn cyfaddef eu bod wedi mwynhau y y cyfarfodydd yn fawr. Bydd hyn yn dâl i bobl y Ciliau am eu lletygarwch siriol: a bydd yn gefnogaeth i ni Undodiaid i weithio yn fwy diwyd dros ein ffydd yn ein Tad a'n gwaith. —UN OEDD YNO.

Y PWYLLGOR.

Cynhaliwyd Pwyllgor y Gymdeithas yn Nghiliau, y Llywydd, y Parch. Lewis Williams yn y gadair. Yn mhlith pethau eraill pasiwyd y materion canlynol:—1. Fod yr ysgrifenydd i benderfynu pa nifer o gopiau o lyfr Mr. Wood ar y Beibl i'w argraphu. 2. Fod y croesaw cynhesaf yn cael ei estyn i'r Parch. E. R. Dennis. 3. Fod y cyfarfodydd blynyddol i gael eu cynal yn Mrondeifi yr haf nesaf, y Parch. J. Hathren Davies i bregethu y bregeth. 4. Fod lle cynhaliad cyfarfodydd chwarterol y Pasc i gael ei adael yn llaw'r ysgrifenydd. — T.A.T.

CYNHWYSIAD.

Aberdar, At Gynulleidfa H.D.C., 280
ADGOF UWCH ANGHOF :—
Anselm, Sant, 198.
Blackie, J. S., 125.
Browning, Elizabeth Barrett, 79.
Bulfinch, S. G., 124.
Canrobert, F. C., 124.
Chopin, 79.
Darwin, 55
Favre, Jules, 80.
Fitzgerald, 80.
Gavazzi, 80.
Haydn, 101.
Holmes, O. W., 198.
Lincoln, 55.
Mendelssohn, 55.
Miall, Edward, 123.
Milnes, R. M., 125.
Moore, Syr John, 54.
Paine, Thomas, 123.
Poe, 56.
Seward, Anna, 101.
Tennyson, Alfred, 199.
Whichcote, 102.
Adolygiad, 87.
Amnon, 81.
Anerchiad, Mr. Harrison, 98.
Ar Edyn Ffydd, 1, 49, 97, 193.
Arholiad yr Ysgol Sul, 137, 182.

Barbauld, Anna Letitia, 210.
Beibl, Tarddiad a Thyfiant y, 104.
Beibl, Y: Yr hyn yw a'r hyn nad yw, 218, 244, 266.
Bowie, Y Parch. W. C., 76.
Bychanu Pechod, 10.
Bywyd Dyfodol, Y, 52.

Calfin, John, 187.
Calfin, Pum' Pwnc, 215.
Ceredig Jones, Y Parch. E., 91.
Ceredigion, Un o famau, 131.
Colofn y Cynghor, 85.
Coll Gwynfa Miltwn, 7, 57.
CONGL YR AWEN :—
Adgof am A. Maud Davies, Gelli-onen, 93.
Adgof am H. Griffiths, Pontar-dawe, 21.
Cadwyn Goffa am Cad. Davies, 6.
Calan 1909, 1.
Chwi Lannau'r Dwn, 187.
Cof-Delyneg i Mary Evans, Glyn-meirch, 21.
Cwyn Coll am Dewi Hefin, 115, 116.
Englynion i Mr. John Williams, Tangraigfach, 67.
Englynion i'r diweddar Spencer Lloyd, Treorchy, 114.
Gweddi, 68.
Gwlad y Bryniau, 207.
Gwyl Dewi, 68.
Penillion i Herbert E. Evans, Ffynonfair, 68, 92.
Profiad Mam cyn Marw, 92.
Uchelgais Sanctaidd, 263.
Y Fan Dymunwn Fyw, 186.
Y Wig yn Mis Mai, 187.
Crefydd a Heddwch, 156.
Crefydd Ryddfrydig, Atdyniad, 222.
Crist Iesu, Y Dyn, 150.
Cyfarfodydd Chwarterol, Y, 23 50, 176, 274.
Cyfarfodydd Pantdefaid, 50.
Cymanfa Ganu Ceredigion, 162, 191.
Cymanfa Ganu Morganwg, 191, 239.
Cynghor Eglwysig, Y, 241.

Deifes, 64.
Dewi Hefin, 73, 115, 116.
Diwygiad Protestanaidd, Y, 30.
Doethineb yr Hen Feirdd, 251.

Ddaeargryn, Y, 25.
Ddiwygwyr yr Oesau, Rhai o, 28.
Dduw, Ein Golygiad am, 211.

Efail y Gof, 107, 134, 178, 227.
Eglwysi, At ein, 255.
Ein Eglwysi, 169, 194.
Eisteddfod Genedlaethol, Yr, 167.
Emynau, 193, 217, 233, 236, 237.
Emynau Evans a Iolo, 214.
Emynau Dr. Watts, 258.
Evans, Y Parch. Keri, a'r Undodiaid, 213.

Francis o Assisi, 29.

Geninen, Y, 24, 32, 203.
Gohebiaeth, 41.
Gwerth Gwahanol Grefyddau, 146.
Gymdeithas Undodaidd Gymreig, Y, 72, 116, 144, 185, 240, 274.
Gwlad y Bryniau, 207.
Gwragedd y Chwedlau Cymreig, 205.

Hale, Dr. Edward Everett, 160.
Harrison, Mr. John, 50.
Hen Lythyr, 264.
Hynafiaethol, 263.

Jeannetta Dark, 126, 174.

Lammas? Beth yw ystyr, 263.

Llin ar Lin, 87.
Llith J. J. T., 257.
Lloyd-Thomas, Y Parch. J. M., 221.
Llythyr y Cranc, 14.

Maddeu er mwyn, 41.
Manion ac Hanesion, 23, 44, 70, 95, 119, 141, 166, 190, 212, 239, 260, 282.
Marwgofion, 22, 42, 69, 93, 118, 139, 164, 190, 211, 237, 259, 281.
Mewn Capel Undodaidd, 253.
Miltwn, Coll Gwynfa, 7, 57.
Moses a'r Pum' Llyfr, 16.

Newydd a Hen, Pethau, 277.
Nodion y Mis, 2, 76, 102, 121, 135.

Oddiar y Twr, 3, 32.
O Fon i Fynwy, 199, 247, 270.

Pantdefaid, Cyfarfodydd, 50.
Pechod, Sylwadau ar, 12.
Penry, John, 31.
Philip Pugh, 215.
Priestley, Joseph, 34.
Priodasau, 20, 41, 93, 117, 139, 164, 237, 259.
Pritchard, Mr. Ion, 78.
Progressive Leagues, 109.

Rathbone, William, 120.
Rhagfarn yn erbyn Undodiaid, 269.

Socrates, 28.
Spedding, Y Parch. T. P., 77.

Tarrant, Y Parch. W. G., 51.
Timothy'r Masiwn, 183.
Tu Hwnt i'r Llen, 37, 60, 88, 110.

Van, Cenhadaeth y, 142, 239.
Van, Fy Mhrofiad ar y, 234.

Ymson y Myfyriwr, 52.
Ymweliad ag Eglwys Universalaidd, 230.
Yr Undodwr a'r Genhadaeth, 262.
"Yr Ymofynydd" yn y Llyfrgell Genedlaethol, 72.

PETHAU NEWYDD A HEN.

Ar ddechreu ei Anerchiad o flaen y *Free Church Council* yn Southport ychydig amser yn ol, cyfeiriodd y Dr. Rendell Harris (1) at y Byd Ysprydol a sylw Syr Oliver Lodge at y tynel oedd ar waith yn y mynydd fel eglureb, lle'r oedd y gweithwyr o'r ddau tu yn nesu at eu gilydd ac yn dechreu clywed swn eu gilydd; ac yn (2) at y brawd hir golledig, yr Hethiad, a'r darganfyddiadau rhyfeddol yn Bozhay; ac yn (3) at bwnc llosgawl, genedigaeth wyryfol y Crist, a'r goleuni a ddysgwylid gael yn y papyrau Arameaidd a gafwyd yn ddiweddar yn Assuan, ar yr afon Neil. Dyddorol yn ddiameu yw llawer o'r hen ddarganfyddiadau hyn, ac nid yw'n ddoeth ameu y gellir dysgwyl goleuni ynddynt ar lawer pwnc, er mai braidd y dysgwyliwn gael un prawf ynddynt i Iesu gael ei eni heb un tad naturiol.

Pethau newydd a hen, perthyn i bob un o honynt ei ddyddordeb ei hunan. Fel y mae'r ieuainc yn caru edrych yn mlaen, câr yr hen edrych yn ol. Y mae'r presenol yn ffrwyth neu yn gynyrch y gorphenol, ac y mae hefyd yn heddyw y dyfodol. Yr hen yw mam-maeth y newydd, y newydd yw plentyn yr hen. Amhosibl yw deall y newydd heb wybodaeth briodol o'r hen. Goreu po helaethaf ein gwybodaeth am y ddau er mwyn lles a llwyddiant cymdeithas.

Cawn fod llawer llwybr yn agored i ni deithio am wybodaeth o'r hen. Ceisiwn nodi rhai, — llwybrau ymddadblygiad, llwybrau tyfiant. Gair — Be feddyliwn ni am dano, yn llafaredig neu ysgrifenedig? A fedr y darllenydd roddi darnodiad? Gair —ie, swn, yn apelio at y glust. Swn, llais, awyr mewn cyffro, a dim ond hyny? Na, mae'n rhagor na swn. Inc? Yn apelio at y llygad. Y mae'r swn a'r inc yn cynwys meddwl. Mae'n syndod, mae'n ddirgelwch. Mw — ebe'r baban bach, a dealla'r fam Gymreig fod buwch yno; er mai *cow* fydd i'r fam Seisnig. Tyfiant naturiol yn ol yr angen yw iaith, nid cynyrch peiriant, nid ffrwyth *midnight oil* y brawd sydd yn eistedd hyd oriau bach y bore i gyfansoddi geiriadur. Mw, be, bow-wow, dyna eiriau natur —ac fel miwsig yn ddealladwy yn mhob gwlad. Tyfu i gyfarfod a'r angen y mae holl dafod-ieithoedd y byd. Yn ein dyddiau ni bathir ugeiniau o eiriau na ddeuant byth yn *current coin*—byth i arferiad cyffredin. Dyna yw canoedd o eiriau'r geiriaduron—arian drwg.

Yn ol y Groegiaid, Cadmus oedd y cyntaf i

DDYFEISIO LLYTHYRENAU;

nad pwy oedd, cyfrifwn ef yn gymaint cymwynaswr i'w genedl a'r hwn ddyfeisiodd yr argraffwasg. Nid oes sicrwydd, fodd bynag, am enw y naill na'r llall. Gair yw Cadmus yn golygu'r Dwyrain, a'r casgliad naturiol oddi wrth yr enw yw mai o'r dwyrain y cafodd y Groegwyr eu llythyrenau. Gan nad pwy a'u dyfeisiodd, credwn fod Carlyle yn llygad ei le pan y dywed—"Mai'r peth mwyaf gwyrthiol o bob peth ddyfeisiodd dyn erioed yw'r gelfyddyd o ysgrifenu." Y mae argraffu yn tyfu yn naturiol allan o hono.

Tebyg mai'r *Hieroglyphic*—ysgrifenu trwy ddarluniau—oedd y dull cyntaf o drosglwyddo meddwl i apelio at y llygad. Yn amherffaith ddigon y gwnaed hyny ar y cyntaf. Nid yn anhebyg i'r cais a wneir gan y plentyn bach. Fe gymer hwnw ei bensil yn ei law, a thyn ryw nifer o linellau ar slât neu ar bapur; ac fel pe mewn amheuaeth o'i lwyddiant, ysgrifena odditano "Dog" neu 'Cat" fel y byddo i eraill ddeall ei amcan.

Nid yw'r ystyr na'r synwyr yn rhyw amlwg iawn yn ein A-bi-ec ni, yn fwy nag yn A-bi-si y Sais.

Am ba reswm y galwyd y llythyrenau yn Wyddor nid yw yn amlwg. Fe allai fod yna gyfeiriad at y llythyrenau fel elfenau gwybodaeth ; ond gallwn feddwl y byddai raid wrth un o'r Mwyaduron cryfaf i olrhain y cysylltiadau — A B C, a-bi-ec, neu fel y dygwyddo, a-bi-si. C—A—T, ac medd yr athraw — Si-ah-ti, gan ychwanegu — Cat ; a dysgwylia i'r plentyn ddeall, peth, dybiaf fi'n amhosibl i un dewin ei ddeall, y gall si-ah-ti wneuthur Cat ac nid Sëaty.

Galwai'r Groegwr lythyrenau cyntaf ei wyddor yn Alpha, Beta, Gamma, Delta ; ond y mae'r ystyr eisoes wedi myned i golli. Os bu gan Cadmus law yn eu trosglwyddiad o'r dwyrain, y mae'n amlwg fod yna ddirywiad wedi cymeryd lle ar y daith. Ymddengys yn amlwg nad ydynt ond math o dreigl o'r llythyrenau Hebraeg neu ryw iaith tebyg. Aleph, Beth, Gimel, Daleth, &c., medd yr Hebrewr. Fe'u gwelir oll yn yr Hen Destament, Psalm 119, lle mae pob llinell o'r penill yn y gwreiddiol yn dechreu gyda'r llythyrenau sydd yn benawd iddo. Yn awr, y mae ystyr i'r llythyrenau yn yr Hebraeg : Aleph, Beth, Gimel, Daleth, &c., hyny yw. Ych, Ty, Camel, Drws, ac y mae ffurf y llythyrenau Hebreig yn dwyn tebygrwydd mwy neu lai i'r gwrthrychau sydd yn rhoi'r enw iddynt. Benthyg yw'r gair Seisnig Alphabet oddi wrth y ddwy lythyren gyntaf yn y wyddor Roegaidd.

Y mae enwau gwreiddiol y wyddor Gymreig wedi myned i golli, os bu y fath enwau erioed. Tebyg fod, o leiaf y maent yn aros yn y Wyddelaeg. Nid wyf yn bresenol yn cofio yr un, ond yr wyf bron yn meddwl mai enwau coed oedd rhai ohonynt. Rhoddir lle helaeth i'r gair gwydd yn y Gymraeg, gwinwydd, palmwydd, cetrwydd ; eto gwyddor, egwyddor ; ac ar hyd llinellau eraill, dyna gwydd-om, gwy(dd)fod, fel canlyniad gweled—Lladin *Vid*eo, I see. Gelwir y wyddor yn y Lladin *Elementa*, elfenau, Saesneg *elements*, ac y mae rhai wedi gweled L M N yn y gair, ac wedi casglu y gallai L M N unwaith fod yn gyn-lythyrenau y wyddor yn Lladin.

Pan fyddwn ni, yn Ewrop, yn ysgrifenu, dechreuwn ar du aswy i'r ddalen ac awn rhagom i'r tu deheu—*from left to right*—tra mae arfer llawer o'r dwyreinwyr yn gwbl groes. Dechreuant hwy ar yr hyn ystyriwn ni yn ddalen olaf y llyfr, ac yna yn ol o ddalen i ddalen nes dyfod i'r dechreu. Dechreuant ysgrifenu ar y tu deheu i'r ddalen ac ant rhagddynt at yr aswy. Ysgrifenwn ni fel hyn—

Dechreu Efengyl Iesu Grist ;

ond tebyg i hyn y rhed yr un geiriau o law yr Hebrewr :

.tsirG useI lygnefE uerhceD

Dywedir am iaith China, nad oes y fath beth a llythyrenau yn ein hystyr ni yn perthyn iddi, ond defnyddir lluniau neu arwyddion (*signs*), a phob un o'r rhai hyny yn awgrymu rhyw feddwl neu syniad arbenig. Yn yr hen amser gynt yr oedd tua deucant o'r arwyddion hyn, lluniau trwsgl fwyaf o honynt, i ddynodi gwahanol wrthrychau, megys haul, lloer, mynydd, coeden, ci, pysgodyn. Pan ddaeth yr eisieu am ragor, ni ddyfeisiwyd lluniau newyddion, ond cyplyswyd yr hen wrth eu gilydd mewn modd cywrain — megys llun haul a lloer i ddynodi goleuni, genau ac aderyn i ddynodi canu ; menyw, llaw, ac ysgubell i ddynodi gwraig. Yr oedd llun calon i ddynodi enaid, tŷ i ddynodi dyn, &c. Fel hyn yr oedd yr iaith a'r arddangosiad o honi at wasanaeth y llygad o hyd yn ymddadblygu yn ol yr angen. Dangosir llawer o gywreinrwydd yn y cais i osod allan y syniad o symudiad, arafwch, buander, diogi, diwydrwydd, &c. Nid hawdd gosod allan llun peth nad yw yn bodoli ond yn y meddwl. Gellir yn rhwydd dynu rhywfath o lun ci neu geffyl, ond nid mor hawdd tynu llun—rhedeg, cerdded, sefyll. Gwyddom ystyr cyffredin myned a dyfod, yn ogystal a *go and come*, ac eto nid yw'r ystyr yn gynenid yn y geiriau. Y mae ein

gofod yn cyfyngu arnom a rhaid ini frysio at y newid ymadrodd.

Son oeddem am iaith China. Ni ysgrifenir hi fel y Gymraeg o'r aswy i'r dde, nac o dde i aswy fel yr Hebraeg. Os deallwn yn iawn fe'i darllenir ar yn ail o'r top i'r gwaelod ac o'r gwaelod i'r top. Tebyg mai ar feini gwahanol wledydd y ceir y gweddillion henaf o ysgrifenu. Ceir lluaws o enghreifftiau yn Scandinavia, yn yr Iwerddon ac yn yr Orkneys. Ceir rhai o'r cyfryw yn darllen ar yn ail o dde i aswy ac o aswy i dde. Fe'u gelwir yn "Runic" Dulliau eraill yw yr "Ogham." Nid anhebyg yw y rhai hyn i'r cynllun welir yn swyddfa'r telegraph heddyw. Fe'u ffurfir o linellau hir a byr, fynychaf, ar gornel y gareg, — y rhai byr i ddynodi'r bogeiliaid a, o, u, e, i, un llinell yn dynodi a, dwy o, tair u, &c. ; y llinellau ar aswy'r brif linell yn dynodi b, l, f, s ac n, yn ol rhif y llinellau 1, 2, 3, 4, 5 ; y rhai ar y dde yn dynodi h, d, t, c a q ; a'r rhai yn croesi'r llinell, m, g, ng, st, neu z ac r. Fe'u darllenir o'r gwaelod i fyny.

Cawn fod y geiriau ac hyd yn oed y llythyrenau weithiau yn awgrymu eu hystyr—gwcw, bu.w.ch, m.och.yn. Sylwer ar wasanaeth yr "r" yn y llinell olaf a ganlyn o eiddo D.D. Gellwch glywed swn y dwfr yn y llinell :—

Ar ei wyneb yno'n gorwedd
Dan dew goeden caed y gwr,
Gan fud syllu ar ei ffrydiau
Yn gwrando dwndwr ber y dwr.

Ceir amryw enghreifftiau desgrifiadol iawn gan Caledfryn :—

A dynion a meirch danynt
Ar garlam, garlam drwy'r gwynt.

Sylwer eto ar y llongau'n llithro'n esmwyth yn swn yr "l" yn gymysg a'r "rth" yn y llinell olaf :—

Mae twrf olwynion chwyrnion a charnau
Y meirch nerthawl, trinawl fel taranau ;
Cywirlym ydynt y carlamiadau
Geir goruwch danedd yr egr-groch donau ; [ei phyrth,
Danynt yn y gwynt yn gwau—drwy
Wele lu engyrth yn hwylio o longau.

Ac eto ar och :—

Y fam druan a'i bychan yn beichio,
Yn ei alaeth, a hithau yn wylo,
Heb wybod ar yr hynod awr hono,
O annedwyddwch, beth i'w wneud iddo ;
Er i eglur ddeigr dreiglo--ar ei grudd,
I angau diludd aeth rhwng ei dwylo.

Sylwer fel y mae'r "sn" yn awgrymu rhyw berthynas a'r trwyn yn y geiriau Seisnig canlynol : snuff, snout, sniff, snort, snipe, snivel, sneak, &c. ; a "wr" yn awgrymu *twist*, neu wrthdroi—wrong yw troi o'r iawn, wrath, wreath, wreck, wrest, &c.—rhywbeth allan o le.

Y mae llawer o ddyfalu wedi ac yn bod gyda golwg ar darddiad a thyfiant iaith. Dyddorol yw eiddo y Cernywiaid. Parodd Duw Dad i'r creaduriaid basio o flaen Adda, ac archodd iddo roi enwau iddynt. Gwnaeth Adda hyny fel yr oeddynt yn pasio un ar ol y llall,—

Yt hanwaf bugh ha tarow,
Ha margh, yw bast heb parow, &c.

Rhag blino'r darllenydd, aroswn yn y fan hon yn bresenol.

S.N.S.

Cyffes ffydd a llunio credo,
Gwneud erthyglau mawr eu clod :
Magu 'mryson, rhwygo eglwysi,
Fu effeithiau rhai 'n erioed.

—Y Parch. T. WILLIAM, Bethesda'r Fro (1761-1844).

AT GYNULLEIDFA HEN DY CWRDD, ABERDAR.

ANWYL GYFEILLION,

Fel y bydd rhai o honoch yn cofio fe ddarfu i mi roddi rhybudd fy ymddiswyddiad i chwi yn mis Chwefror diweddaf. Cymerwyd y mater dan ystyriaeth genych, ac yn lle derbyn yr ymddiswyddiad buoch mor garedig a chynyg chwe' mis o seibiant i mi, yn y gobaith y buasai hyny yn adferiad iechyd a nerth i mi. Teimlaf yn ddiolchgar iawn i chwi am eich cydymdeimlad a'ch caredigrwydd. Y mae'r chwe' mis wedi myned heibio, a'r iechyd a'r nerth, diolch i'r Bod Mawr, gystal ag y gellir dysgwyl iddynt fod ; ond nid yw'r chwe' mis seibiant ddim wedi fy ngwneuthur ddim yn ieuangach. Pwyso'n drymach drymach mae'r blynyddau y naill ar ol y llall, ac yn wyneb hyny rhoddais rybudd drachefn i chwi y dymunwn gael fy rhyddhau ar ddiwedd y flwyddyn, ac y gwnawn fy ngoreu i'ch gwasanaethu hyd hyny ; ond dywed eich Ysgrifenydd wrthyf eich bod yn dymuno rhybudd ffurfiol ar bapyr. Felly gobeithio y derbyniwch hwn fel y cyfryw.

Gall y rhai hyny o honoch sydd mewn oed ddeall mai trist iawn yw'r teimladau wrth feddwl am dori cysylltiad sydd wedi parhau mor hir ac mor hapus. Llithrais i'm swydd ar y cyntaf braidd yn ddiarwybod i mi fy hun ac i lawer o'r gynulleidfa feallai.

Pan ddychwelais o'r Coleg ar ddechreu Mai 1863, yr oedd iechyd fy nhad, eich cyn-weinidog wedi amharu'n fawr, a pharhaodd i waethygu fel y bu llawer o'r gofal arnaf fi o hyny allan. Esgynodd i'r pwlpid am y tro diweddaf Hydref 25 ; darllenodd ranau o'r Ysgrythyrau, ond methodd wneuthur rhagor. Galwodd ar ei fab i fyned trwy y gweddill o'r gwasanaeth. Tachwedd 1af, ni allodd ddyfod i'r cwrdd. Tachwedd, Sul cymundeb, daeth i'r cwrdd ac eisteddodd gyda'i briod yn sedd y teulu, a gorfu i minau fyned trwy'r gwasanaeth. Dyna'i ymweliad diweddaf â'r Hen Dŷ Cwrdd, lle'r oedd wedi gwasanaethu am yn agos 31 mlynedd. Ar ol hyny parhaodd i ddihoeni nes iddo orphen ei ddyddiau ar y ddaear Rhagfyr 19, 1863, pan nad oedd ond 61½ mlwydd oed.

Yn mhen llai na mis ar ol hyny, anfonwyd am y Parch. Owen Evans, Cefncoed, ei gyfaill o'r adeg y buont yn cydysgolia'n blant gyda Dafis o Gastell hywel, a chyda'i help ef, fe'm sefydlwyd yn ffurfiol, mewn cyfarfod cyhoeddus, fel gweinidog yr Hen Dŷ Cwrdd. Yr oeddwn yn ieuanc ar y pryd, yn ddibrofiad, ac yn naturiol yn bryderus iawn yn nghylch y dyledswyddau yr oeddwn ar ymgymeryd â hwy. A dweyd y gwir ni wyddwn i ond y nesaf peth i ddim am danynt. Ond yr oeddwn wedi fy nwyn i fyny mewn ffordd ar fynwes y gynulleidfa, ac yr oedd pawb —yr hen bobl, canol oed a phlant— yn barod â'u cydymdeimlad, a'u help bawb o'r fath allent, yn nghanol yr helbul mawr. Yr oedd Rhagluniaeth yn dyner iawn tuag ataf y pryd hwnw, ac y mae wedi parhau'n dyner drwy'r blynyddoedd hyd heddyw.

Gyda'r eglwys a'r ysgol, gellwch yn rhwydd gredu i mi ei chael yn galed ddigon am lawer o flynyddau. Yr oedd angen am yr ysgol, fel y gwyddoch er sicrhau bara a chaws. Ychydig ŵyr y cyffredin am ystyr mewnol gweinidogaeth eglwys. Mae genyf gof byw am Hamilton Thom, o Lerpwl, un o weinidogion enwocaf a pharchusaf ein henwad, un tro yn gofyn am flwyddyn o seibiant, oherwydd ei fod yn teimlo fel *sucked orange*. Sut arall y mae'n bosibl i ddyn deimlo, os rhydd allan ddwywaith bob Sul, i'r un gynulleidfa, y

goreu sydd ynddo? Dyna waith gweinidog a'i ddyledswydd, onide? Nid rhyfedd ei fod yn fynych yn syrthio'n fyr. Ie, pregethu o leiaf ddwywaith bob Sul, bugeilio, bedyddio, claddu, &c. Yn ystod chwe' mlynedd a deugain yr wyf wedi gweled colofnau ein heglwys yn syrthio a diflanu drosodd a throsodd lawer gwaith; a chwymp pob colofn yn trywanu hyd at y galon.

Nid wyf am fyned dros holl hanes fy ngweinidogaeth yn bresenol. Nid yw'r hwyl na'r hamdden yn caniatau i hyny. Wrth derfynu, taer erfyniaf arnoch i wneuthur rhyw drefn yn ddioedi fel y galloch fy rhyddhau o bob cyfrifoldeb ar ddiwedd y flwyddyn. Gwyddoch fel y mae'r blynyddau yn cyfyngu arnaf, fy nerth yn pallu, fy ngolwg a fy nghof yn gwanhau, a phob peth yn awgrymu'r doethineb i mi droi o'r neilldu, fel y caffwyf fi'r ychydig hamdden angenrheidiol i osod pethau mewn trefn cyn fy myned ymaith, ac y caffoch chwithau'r cyfleusdra i edrych oddi amgylch a dewis olynydd. Fy nymuniad a'm gweddi yw ar i chwi ddewis yn ddoeth. Tuag at hyny meddyliwch fwy am les yr achos na boddloni mympwy personol. Bydded yn brif amcan gan bob un o honoch, ar ol ymresymu ac ymgynghori a'ch gilydd, i wneuthur y cyfryw ddewisiad ag a fydd er llwyddiant i'r achos yn yr Hen Dy Cwrdd, er lles i bob dyn, ac er gogoniant i Dduw pob gras.

Yr wyf yn gobeithio cael byw yn eich plith am beth amser eto, ac, os caniata Rhagluniaeth, i fod o ryw wasanaeth hefyd. Un gair yn ychwaneg, cofiwch y gall pob ffwl dynu ty i lawr, tra mae angen doethineb i adeiladu. Ffyned cariad brawdol yn eich plith, a Duw'r tangnefedd a fyddo gyda chwi un ac oll yn awr ac yn oes oesoedd.

R. J. JONES.

Broniestyn,
Hydref 17, 1909.

MARWGOFION.

HYDREF 28, yn 81 mlwydd oed, David Evans, Penheol, Llanwenog. Aethai allan ar ol ei foreufwyd at ei orchwyl, a chyda ei fod yn dechreu syrthiodd ar bwys ei offeryn, a bu farw mewn mynudyn. Cafodd oes faith, a threuliodd hi yn anrhydeddus. Bu'n ddiwyd, gonest a geirwir yn ei holl gysylltiadau. Hyd yr oedd ynddo bu fyw mewn heddwch â phawb, ac ni chlywid un amser fod ystorm y teimladau yn cael ei chynhyrfu ganddo. Yr oedd yn aelod ffyddlon ac yn ddiacon parchus o'r eglwys Gristionogol yn Nghapelybryn. Gadawodd ei briod ffyddlon, pedwar o blant, ac amryw ŵyrion i alaru'n ddwys ar ei ol. Claddwyd yn nghladdfa'r teulu yn mynwent Llanwenog, a gwasanaethwyd ar yr achlysur mewn galar gan ei hen weinidog. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

HYDREF 30, yn 20 mis oed, William John, baban Albert a Hannah Thomas, Porthyrhyd, Pontshan. Claddwyd y Mawrth canlynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. "Myfi a âf atto ef, ond ni ddychwel efe ataf fi."

HYDREF 31, yn 68 oed, Mrs. Judith Thomas, priod Mr. Thomas Thomas, Gwarffynon, Tregroes, Llandyssul. Ni chafodd yr ymadawedig ei chystuddio ond am amser byr, a bu ei symudiad yn ergyd trwm i'w phriod a'i phlant. Yr oedd yn wraig rinweddol, darbodus dros ei theulu, caredig mewn cymwynas, ac iddi barch mawr gan ei chydnabod. Yr oedd yn un o ffyddloniaid Pantdefaid, a pharhaodd felly hyd y diwedd. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Pantdefaid, a gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas. Gadawodd briod a phlant mewn galar mawr ar ei hol.

TACHWEDD 4, ar ol hir nychdod, yn 83 mlwydd oed, Jane Thomas, Penynant, Llanwnen. Merch ydoedd i'r unwaith adnabyddus berson David Daniel, Caeglas, a gweddw y diweddar David Thomas, Beilicadarn. Oherwydd henaint a methiant, yr oedd yn ddiweddar wedi myned i gartrefu at ei hunig ferch a'i mab-yn-nghyfraith, Mr. a Mrs. Evans, Castell-du, wedi hyny Penynant, lle y derbyniodd bob gofal a thynerwch. Claddwyd yn ymyl ei phriod yn mynwent Capelygroes, lle yr oedd wedi bod yn aelod ffyddlon drwy ei hoes faith. Cyflawnwyd y gwasanaeth crefyddol ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca.

TACHWEDD 13, bu farw yn 3, Taidraw, Abernant, Aberdar, John Evans, yn 84 oed, ar ol dwy flynedd ar bymtheg o gystudd. Gedy ar ei ol mewn galar weddw oedranus ac amryw blant ac ŵyrion. Claddwyd dydd Mercher yr 17eg yn y fynwent gyhoeddus, gweinidog yr Hen Dy Cwrdd yn gwasanaethu.

Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd.

TACHWEDD 18, yn 84 mlwydd oed, David Davies, Birdhp, plwyf Llandyssul. Ganwyd yr ymadawedig yn Mrynhawc, a pharhaodd yn weddw drwy ei oes. Cartrefai er ys blynyddau bellach yn nhy ei nith, y diweddar Mrs. Margaret Griffiths o'r lle uchod, a chafodd bob tiriondeb a gofal gan ei berthynasau yn ei lesgedd a'i wendid. Claddwyd ei ran farwol yn mynwent Pantdefaid y dydd Sadwrn dilynol i'w farwolaeth. Gwasanaethwyd yn y ty a phregethwyd yn y capel gan y Parch. Arthur Thomas, a gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MANION AC HANESION.

PRIODAS EURAIDD YN CLEVELAND, OHIO.—Mr. a Mrs. Josuah a Mary Enoch, 10510 Cedar Avenue, a gawsant y fraint o gydoesi eu bywyd priodasol am haner cant o flwyddi, a dathlwyd yr amgylchiad ar ddydd Mercher, Medi 29ain, Mr. Enoch yn 71 a'i briod yn 72 oed. Mab yw efe i John Enoch a'i briod, Goetre, plwyf Llanarth, Sir Aberteifi, a nai i'r diweddar Rees Jones (Amnon); chwaer iddo yw Mrs. Thomas, Fedwen Villa, Llandyssul. Y mae Mrs. Enoch yn ferch i William Williams a'i briod, Penrhiw, ger Narberth, Sir Benfro. Cymerodd eu priodas le yn Merthyr Tydfil, Medi 29, 1859. Symudasant o Ferthyr i Middlesboro, Gogledd Lloegr, yn 1860, ac yn 1868 hwyliasant i'r Unol Dalaethau ac i Cleveland, Ohio. Saer coed yw Mr. Enoch, ac yn yr alwedigaeth hono y treuliodd ei flynyddoedd gyda llwyddiant, hyd nes iddo ymneillduo o bob llafur corphorol yn 1891. Un plentyn fu iddynt, sef eu mhab John W. Enoch

yr hwn sydd yn briod ag Americanes, a chanddynt ddau o blant, a'u rhieni yn cydbreswylio a hwy yn yr un anedd. Ar yr amgylchiad o ddathlu eu priodas euraidd, cawsant ddau gynhulliad, sef o 2 o'r gloch hyd 5, ac o 8 hyd 10 yn yr hwyr, a llanwyd eu ty ar y ddau dro gan dros ddau cant o'u cyfeillion, a rhai perthynasau. Cyflwynwyd iddynt lawer iawn o anrhegion drudfawr a defnyddiol; a chan yr eglwys maent yn aelodau o honi, cawsant bedwar ugain doler yn aur pur. Y mae'r par priodasol wedi bod yn aelodau crefyddol ffyddlon a dichlynaidd drwy eu hoes, ac yn sefyll yn uchel mewn parch ac anrhydedd yn yr eglwys. Y mae'r ddau o ran eu pryd a'u gwedd a'u nerth corphorol yn ymddangos y gallant fyw hyd eu priodas ddiamwnd. Mawr lwydd iddynt wneud hyn.—*O'r 'Drych.'*

ADRAN YR YSGOL SUL.—Mae hi wedi dod yn bryd dechreu dysgu'r gwersi ar gyfer yr Arholiad. Dichon fod rhai ysgolion wedi dechreu. Rhannau yn llyfr y Parch D. Evans, Cribyn, sydd i'w cymeryd eleni eto. Gwersi y Drydedd Flwyddyn sydd i Safonau I a II. Mae Gwers Safon I yn dechreu ar waelod tudalen 5, ac yn parhau hyd waelod tudalen 7, ac y mae Gwers Safon II yn dechreu ar dudalen 18, ac yn parhau hyd tudalen 24. Nid oes ond un ysgol wedi danfon am y gwersi eto. Bydded i'r lleill wneyd hyny yn ddioed. Anfoner at y Parch. L. Williams, Bedlwyn. Felinfach, S.O.

RHYDYGWIN.—Cynhaliwyd cyfarfod diolchgarwch am y cynhauaf yn yr eglwys hon, nos Wener, Hydref 29ain. Gwasanaethwyd yn foddhaol iawn gan y Parch. T. A. Thomos, Llandyssul.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Y mae rhaglen Cymanfa 1910 allan o'r wasg, a chredwn y gallwn longyfarch y Pwyllgor yn galonog ar eu detholiad. Cynwysa 26 o donau cynulleidfaol yr oll tuallan i Perlau Moliant. Bydd yn attodiad teilwng i'r llyfr emynau. Y mae ynddo hefyd bedair ton dlos i'r plant y rhai gredwn ddeuant yn ffafredau ganddynt. Dylasem ddweyd fod y rhaglen wedi ei pharotoi ar gyfer 1911 hefyd, y tair-ar-ddeg ton gyntaf gyferbyn a'r gymanfa nesaf, dwy don y plant ac hefyd "Canmlwyddiant yr Ysgol Sabbothol" (Jenkins) ydyw'r anthem. Gyrer am ragleni ac anthemau at yr ysgrifenydd, Mr. D. Martin Jones, Gwion Castle, Llandyssul.

ACCRINGTON.—Ar ei symudiad o Accrington i Bolton, anrhegwyd y Parch. Islan Jones, B.A. a *cheque* ac a darlun o ddosbarth y bobl ieuainc a chor meibion cysylltiedig a'r Eglwys. Yn yr anerchiadau a draddodwyd ar yr achlysur, dygwyd tystiolaethau uchel i'r gwaith ardderchog a wnawd gan Mr. Jones yn ystod ei weinidogaeth yn eu plith. Ymadawa gyda dymuniadau goreu ei hen gynulleidfa am ei lwyddiant yn ei le newydd. Dyna yw dymuniad ei gyfeillion yn Nghymru iddo hefyd.

CAPEL-Y-GROES.—Ar y 10fed o Hydref, talodd Ysgol Sul y lle uchod ymweliad a Chribyn. Er fod y Sul yn un hynod o arw, daeth yr ysgol ynghyd yn weddol gryno. Adroddwyd amryw ddarnau o'r Beibl, a'r oll o'r emynau a ganwyd, gan y plant yn effeithiol iawn, ac yr oedd eu hatebion i'r gofyniadau ar y benod yn rhagorol. Cyn ymadael, rhoddodd cynulleidfa y Cribyn wledd o de a bara brith i'r ysgol fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'u hymweliad, ac ymddangosai pawb, yn enwedig y plant, fel yn mwynhau eu hymweliad yn ardderchog.—Cynhaliwyd y cwrdd diolch nos Fawrth y 19eg o Hydref. Y pregethwr oedd y Parch. E. Ceredig Jones, M.A. Hwn oedd ymweliad cyntaf Mr. Jones a Chapelygroes er's 37 o flynyddau. Yr oedd yn dda gan bawb ei weled, a gobeithiwn y tal ymweliadau aml a ni yn y dyfodol. Casglwyd at y Gymdeithas Saesneg.

CRIBYN.—Dydd Gwener, yr 22ain o Hydref, cafodd plant yr Ysgol Sul wledd o de gan aelodau'r gynulleidfa. Daeth nifer luosog iawn o blant ynghyd i fwynhau o'r danteithion oedd wedi eu darparu. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod adloniadol llwydd-

ianus iawn, pryd yr adroddwyd ac y canwyd nifer fawr o ddarnau yn effeithiol a melus iawn gan y plant Cadeiriwyd yn fedrus gan Mr, Hughes, Rhydyfydr. Y mae diolch gwresog yn ddyledus i bawb a weithiasant mor ardderchog i wneyd y wledd yn llwyddiant.—Cynhaliwyd y cwrdd diolch nos Wener y 29ain o Hydref. Pregethwyd gan y Parch. E. Ceredig Jones, M.A. a Mr. J. M. Howell, Y.H. Aberayron. Yr oedd y capel yn orlawn o fobl, a rhoddodd y ddau bregethwr wledd feddyliol ac ysbrydol o'r fath oreu iddynt. Casglwyd tuag at y Gymdeithas Saesneg.

BRONDEIFI, LLANBEDR.—Cynhaliodd yr eglwys hon ei Chwrdd Diolchgarwch am y cynhauaf Hydref 11eg, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Hathren Davies, ac yn Caeronen ar yr 11eg o Dachwedd pryd y gwasanaethwyd gan y Parch E. Ceredig Jones, M.A.

BRIDGEND.—Y mae y capel yma yn awr yn nwylaw yr adeiladwyr. Y mae yr hen oriel wedi myn'd yn annigonol, ac y mae i gael ei symud allan yn hollol. Y mae yr hen gorau i gael eu symud, a seddau mwy cydweddol â syniad yr oes hon am gysur i gael eu rhoi yn eu lle. Y mae yr hen bulpud uchel i gael ei symud, a llwyfan ar ben pellaf y capel i gymeryd ei le yntau. Codir festri fechan lle mae y fynedfa i'r capel yn awr, a bydd y fynedfa i'r capel yn y dyfodol o'r brif ffordd. Bydd *heating apparatus* a chyfleusderau eraill i'w rhoddi i fewn yn awr am y tro cyntaf yn hanes y capel. Hyderir y bydd yr adnewyddiad yma yn gwneud yr hen gysegrfa yn fwy addas a chyfleus ar gyfer gwaith yr Ysgol Sul ac amrywiol anghenion eraill. Y mae y cyfan i gostio tua £320. Y mae eisioes mewn llaw, neu wedi eu addaw tua £140. Gwna gweinidog a chynulleidfa Bridgend eu goreu, ond ni fedrant gasglu y cyfan o'r swm sydd eto yn weddill heb apelio at ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. — D.G.R.

ORIEL COLEG CAERFYRDDIN

O DAN OLYGIAETH

DR. E. PAN JONES, M.A.,

YN CAEL EI GYNORTHWYO GAN Y

Prifathraw W. J. EVANS, M.A., ac ereill.

Cynwysa hanes yr holl Fyfyrwyr, o bob Enwad, fu yn y Coleg o 1792 hyd 1899, gyda 271 o Ddarluniau Athrawon a Myfyrwyr.

(Mae Byr-Gofiantau i'r oll o'r Myfyrwyr Undodaidd wedi eu hysgrifenu yn Saesoneg gan y Prifathraw Evans. . .

284 o DUDALENAU CROWN QUARTO, WEDI EI RWYMO MEWN LLIAN HARDD } PRIS 7s. 6c.

(Cludiad yn rhad i bawb a ddanfono y swm hwn am dano o hyn i Rhagfyr 15fed, 1909.) . . .

Gyrer yr Archebion i'r Cyhoeddwyr—

Joseph Williams & Sons, Swyddfa'r 'Tyst', Merthyr.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand, Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Shopping by Post.

By means of our specially organised Post Order Department the Shopping Facilities enjoyed by Town Residents are at the disposal of those who live in the Country Districts, the resources of our huge establishment are, in fact, brought as near as the Nearest Pillar Box.

All orders dispatched, wherever possible, same day as received. No order too large for execution, none too small to receive attention.

Ben Evans & Co. Ltd.,

"THE HOUSE FOR QUALITY,"
SWANSEA.